Hawdd i'w Ddeall

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024 i 2028

## Beth ydych chi'n feddwl



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Lywodraeth Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o **'Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024 i 2028: Egwyddorion Dull ac Amcanion Arfaethedig'**.

**Tachwedd 2023**

# How to use this document

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae'r holl eiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 28**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Website:** www.llyw.cymru/ymgyngoriadau

**E-mail:** equalityandhumanrightsdivision@gov.wales

**Phone:** 0300 062 8274

Gwnaeth **Hawdd ei Ddeall Cymru** y ddogfen hon yn **Hawdd ei Ddeall** gan ddefnyddio **Photosymbols.** I ddweud eich barn wrthym am y fersiwn hawdd ei darllen hon, cliciwch yma.

**Rhif trwydded ffotosymbolau 403527247.**

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

# Cynnwys


**How to use this document** ........ **2**

**Beth sydd yn y llyfryn yma** ........ **4**

Pam mae angen y cynllun yma? ........ 5

Mwy am sut mae  pobl yn gallu cael eu trin yn annheg ........ 6

Adroddiad - Ydy Cymru'n decach? ........ 8

**Ein cynllun** ........ **9**

**Edrych i weld bod y cynllun yn gweithio** ........ **14**

**Sut fyddwn ni yn cyflawni ein hamcanion** ........ **15**

**Cwestiynau** ........ **16**

**Sut rydyn ni yn defnyddio eich gwybodaeth** ........ **25**

**Geiriau Anodd** ........ **28**


# Beth sydd yn y llyfryn yma




Rydyn ni yn rhoi nodau at ei gilydd ynghylch trin pobl yn gyfartal ac yn deg.




Rydyn ni'n eu galw'n **Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol**.




Maen nhw'n rhan o'n cynllun o'r enw **Cynllun Cydraddoldeb Strategol**.



Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl am yr **Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol**.




Darllenwch y llyfryn yma os gwelwch yn dda. Yna atebwch y cwestiynau yn agos i'r cefn ar **dudalen 16**.

# Pam mae angen y cynllun yma?




Mae'r cynllun yn ymwneud â chyfraith yng Nghymru o'r enw **Deddf Cydraddoldeb 2010**.



Mae'n helpu i wneud yn siŵr bod gwasanaethau cyhoeddus yn trin pobl yn gyfartal ac yn deg.



Mae gwasanaethau cyhoeddus yn meddwl ysbytai, cynghorau a gwasanaethau eraill sy'n cael eu rhedeg ar gyfer y cyhoedd



Fe fydd y cynllun hefyd yn helpu pobl i ddeall:

- mwy am anghydraddoldeb
- pam mae pobl yn cael eu trin yn annheg

# Mwy am sut mae  pobl yn gallu cael eu trin yn annheg




Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn dweud bod 9 grŵp o bobl sy'n aml yn cael eu trin yn annheg. Maen nhw'n galw'r rhain yn **nodweddion gwarchodedig**.



Mae **nodweddion gwarchodedig** yn  ymwneud â chyfraith am drin pobl yn gyfartal ac yn deg. Mae rhai grwpiau o bobl sydd yn gallu cael eu trin yn annheg oherwydd pethau fel:



- Pobl anabl
- Dynion a menywod
- Pobl o wahanol ddiwylliannau neu hiliau



- Pobl o wahanol oedrannau
- Pobl syth, hoyw a lesbiaidd
- Pobl o wahanol grefyddau neu bobl heb grefydd



- Menywod sy'n feichiog neu sydd â babi newydd
- Pobl sy'n briod neu sydd â phartner sifil
- Pobl drawsryweddol


Mae rhan arall o **Ddeddf Cydraddoldeb 2010** yn sôn am:



- cyfleoedd bywyd



- sut mae hyn yn effeithio ar gydraddoldeb.




Er enghraifft, mae gan bobl symiau gwahanol o arian. Neu mae pobl yn byw mewn cymunedau sydd â llai o wasanaethau nag eraill.



Mae’r gyfraith yn dweud bod angen i wasanaethau cyhoeddus feddwl am y pethau yma. A gwneud yn siŵr bod pobl yn cael eu trin yn deg ac nad ydyn nhw ar eu colled.

# Adroddiad - Ydy Cymru'n decach?




Fe ddaeth adroddiad allan yn 2018 o'r enw **Ydy Cymru'n Decach.**



Fe wnaeth ddarganfod bod ansawdd bywyd rhai grwpiau o bobl wedi gwaethygu.




Mae adroddiad newydd yn cael ei wneud y flwyddyn yma.



Fe fyddwn ni yn edrych ar beth mae'r adroddiad yn ei ddweud i helpu i wneud y cynllun yma.

# Ein cynllun



Ein nod yn y tymor hir ydy gwneud yn siŵr bod Cymru'n lle teg i fyw i bawb.



Rydyn ni eisiau i bobl wybod am eu **hawliau dynol** a chael cyfleoedd teg mewn bywyd.




**Hawliau dynol** ydy'r hawliau sydd gan bawb. Er enghraifft, yr hawl i fod yn fyw a'r hawl i gael addysg.

Dyma ein **hamcanion cydraddoldeb cenedlaethol**:

## 1. Mae gan bawb gyfle i wneud yn dda.



Er mwyn gwneud hyn, fe fyddwn ni yn helpu i leihau **tlodi**.

**Tlodi** ydy pan nad oes gan rywun ddigon o arian i fyw'n dda. Mae hefyd yn meddwl nad ydy pobl yn cael yr un cyfleoedd. a mynediad at wasanaethau.

## 2. Byddwn yn helpu i sicrhau bod pawb yn ymwybodol o’u hawliau dynol a bod ganddynt gefnogaeth i’w hamddiffyn.




Fe fyddwn ni yn gwneud yn siŵr bod **hawliau dynol** yn cael eu dangos yn ein holl gynlluniau. Ac fe fyddwn ni yn annog gwasanaethau cyhoeddus eraill i wneud yr un peth.


## 3. Byddwn yn helpu i sicrhau bod pawb yn gwybod am wasanaethau cyhoeddus da ac yn gallu eu defnyddio.



Fe fyddwn ni yn helpu i wneud yn siŵr bod barn ac anghenion pobl yn dod yn gyntaf mewn gwasanaethau cyhoeddus.



Fe fyddwn ni yn edrych ar brofiadau pobl sy’n defnyddio gwasanaethau cyhoeddus.



Fe fyddwn ni yn helpu i wneud yn siŵr bod gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu gwella a bod pobl yn gallu eu defnyddio’n hawdd.



Fe fyddwn ni yn helpu i wneud yn siŵr bod pobl yn cael eu trin yn deg.

## 4. Byddwn yn ceisio helpu i atal pobl rhag cael eu trin yn wael neu'n annheg. Er enghraifft, rhag bwlio, cam-drin a thrais.



Fe fyddwn ni yn helpu i wneud yn siŵr bod gwasanaethau cymorth yn deall y materion yma.



Fe fyddwn ni yn helpu i wneud yn siŵr bod pobl yn cael y cyngor a'r gefnogaeth maen nhw ei angen am y materion yma.

## 5. Byddwn yn anelu at helpu i sicrhau y gall pobl gael swyddi a chael eu trin yn deg yn y gwaith.



Fe fyddwn ni yn helpu i wneud yn siŵr bod pobl yn gallu defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.



Fe fyddwn ni yn helpu i wneud yn siŵr bod pawb yn cael cyfle teg i ddod yn rheolwyr gwasanaethau cyhoeddus.



Fe fyddwn ni yn helpu i wneud yn siŵr bod gwasanaethau'n cael eu rheoli gan bobl o wahanol gefndiroedd.



Byddwn yn cefnogi pobl â nodweddion gwarchodedig i redeg mewn etholiadau.

## 6. Byddwn yn anelu at helpu i wneud gweithleoedd yn deg ac yn gyfartal.



Fe fyddwn ni yn helpu i wneud yn siŵr ein bod yn cyflogi pobl o wahanol gefndiroedd.



Fe fyddwn ni yn helpu i wneud yn siŵr bod pobl yn cael eu talu'n deg.



Fe fyddwn ni yn helpu i wneud yn siŵr bod yr holl staff yn cael yr un cyfleoedd i wneud yn dda.

# 7. Fe fyddwn ni yn gweithio i fod yn sero net. A helpu i wneud yn siŵr bod pobl yn cael eu trin yn deg wrth wneud hyn.



Mae **sero net** yn meddwl dod o hyd i ffyrdd o leihau'r effaith wael rydyn ni'n ei gael ar y blaned.



Fe fyddwn ni yn parhau i ddysgu am **sero net** a sut i ofalu am y blaned.



Fe fyddwn ni yn edrych i weld bod pobl yn cael eu trin yn deg wrth gyrraedd **sero-net**. Er enghraifft, pobl sydd â llai na phobl eraill.



Fe fyddwn ni yn cefnogi cymunedau ar draws Cymru i fod yn **sero net**.

# Edrych i weld bod y cynllun yn gweithio




Fe fyddwn ni yn edrych ar y cynllun bob blwyddyn ac yn gwneud newidiadau iddo pan fydd angen.




Mae gan ein cynllun y nodau am drin pobl yn deg ac yn gyfartal. Fe fyddwn ni yn gwneud adroddiad amdanyn nhw bob blwyddyn.

# Sut fyddwn ni yn cyflawni ein hamcanion



Mae gennym ni dri nod arall rydyn ni yn eu galw'n **egwyddorion**. Mae'r rhain yn dangos **sut** y byddwn ni yn cyrraedd ein nodau.

Maen nhw yn:




1. Gwneud yn siŵr ein bod yn siarad am gydraddoldeb yn ein holl waith a'n cynlluniau.



2. Gwneud yn siŵr bod ein holl gynlluniau'n gweithio'n dda gyda'i gilydd i helpu i sicrhau cydraddoldeb.



3. Gwneud yn siŵr bod ein cynlluniau'n gweithio mewn bywyd go iawn ac yn gwneud gwahaniaeth.

# Cwestiynau




**Enw:**



**Ar gyfer pwy ydych chi'n gweithio?**



**Rhif ffôn:**



**Cyfeiriad e-bost:**



**Cyfeiriad:**



1. Ydych chi'n cytuno â'n **nod tymor hir**?

   Ein **nod tymor hir** ydy gwneud yn siŵr bod Cymru'n lle teg i fyw i bawb.

   Dywedwch wrthyn ni am unrhyw newidiadau mae angen i ni eu gwneud i'n nod tymor hir.



2. Ydych chi'n cytuno gyda'n **7 Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol** ?

   Dywedwch wrthyn ni am unrhyw newidiadau mae angen i ni eu gwneud.



3. Ydych chi'n meddwl bod pawb yn cael eu trin yn yr un ffordd yng Nghymru?

   Dywedwch wrthyn ni am eich profiad.




4. Ydych chi’n meddwl bod yr **egwyddorion** ar **dudalen 15** yn helpu’r cynllun yma?



5. Ydych chi’n cytuno gyda’r **egwyddorion**?

   Dywedwch wrthyn ni am unrhyw newidiadau y byddech chi yn eu gwneud.



6. Ydych chi'n credu y bydd ein **7 Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol** yn helpu i wneud yn siŵr bod pobl yn cael eu trin yn deg, waeth pa mor gyfoethog neu dlawd ydyn nhw?




7. Ydych chi'n credu y bydd ein hamcanion yn helpu i wneud yn siŵr bod pobl yn gwybod am eu **hawliau dynol**?



8. Oes yna unrhyw beth arall yr ydych chi eisiau ei ddweud am y cynllun yma?

| |
|---|
| |



**Postiwch eich atebion neu anfonwch e-bost at:**

Cydraddoldeb a Prif Ffrydio Strategol
Is-adran Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ



**Email:** equalityandhumanrightsdivision@gov.wales

**Anfonwch eich atebion erbyn 12 Chwefror 2024.**

# Sut rydyn ni yn defnyddio eich gwybodaeth




Rydyn ni yn defnyddio'ch gwybodaeth drwy ddilyn cyfraith o'r enw  Y **Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data DU (UK GDPR).**



Fe fydd ein staff yn gallu gweld eich atebion.



Weithiau fe fyddwn ni yn gofyn i sefydliadau eraill ein helpu i ddeall atebion pobl. Efallai y byddan nhw'n gweld eich gwybodaeth hefyd.




Rydyn ni fel arfer yn cyhoeddi adroddiad sy'n dangos y mathau o bethau mae pobl wedi ei ddweud.




Weithiau mae hyn yn meddwl bod manylion personol pobl yn cael eu cynnwys. Dywedwch wrthyn ni os nad ydych chi eisiau i'ch gwybodaeth bersonol gael ei gynnwys




Os ydych chi yn ein hadroddiad, mae'r wybodaeth yn gallu bod ar gael am amser hir.




Ond dim ond am 3 blynedd y mae gwybodaeth sydd ddim yn cael ei gyhoeddi yn cael ei gadw.

Mae'r gyfraith diogelu data yn rhoi'r hawl i chi:




- Gwybod pa wybodaeth sydd gennym amdanoch chi a sut rydych chi'n gallu ei weld.
- Gwneud i ni newid unrhyw gamgymeriadau yn y wybodaeth amdanoch chi.
- Gofyn i ni beidio â defnyddio'r wybodaeth mewn rhai achosion.
- Gofyn i ni ddileu'r wybodaeth sydd gennym amdanoch chi mewn rhai achosion.
- Symud y wybodaeth amdanoch chi i rhywle arall mewn rhai achosion.
- Cwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Os ydych chi eisiau gwybod mwy am sut mae eich gwybodaeth yn cael ei gadw a'i ddefnyddio, cysylltwch â ni yn:



Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ



**E-bost**: Data.ProtectionOfficer@gov.wales

Rydych chi'n gallu cysylltu hefyd gyda **Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth**:



Tŷ Wycliffe
Water Lane
Wilmslow
Swydd gaer
SK9 5AF



**Ffôn**: 01625 545745 neu 0303 123 1113




**Gwefan**: https://cy.ico.org.uk

# Geiriau Anodd

## Hawliau Dynol

Hawliau dynol ydy'r hawliau sydd gan bawb. Er enghraifft, yr hawl i fod yn fyw a'r hawl i gael addysg.

## Sero net

Mae hyn yn meddwl dod o hyd i ffyrdd o leihau'r effaith wael rydyn ni'n ei gael ar y blaned.

## Tlodi

Tlodi ydy pan nad oes gan rywun ddigon o arian i fyw'n dda. Mae hefyd yn meddwl nad ydy pobl yn cael yr un cyfleoedd. a mynediad at wasanaethau.